AWDURDOD ADDYSG - YNYS MÔN - EDUCATION AUTHORITY
YSGOL Y GRAIG
Ffordd y Coleg
Lon Talwrn
Llangefni
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7LP
www.ysgolygraig.co.uk

Pennaeth / Headteacher
MEINIR L ROBERTS BAdd.

(01248) 723092
(01248) 750470

ysg2154@ynysmon.gov.uk

## DIWEDD DIWRNOD

Er mwyn sicrhau diogelwch ein plant rydym yn ailedrych ar drefniadau sut mae plant CA2 yn teithio adref ar ddiwedd y dydd. Gofynnwn i chwi felly gwblhau'r daflen hon mor fuan ag sy'n bosib a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn **Dydd Gwener, Chwefror y 15fed**.

Cerdded adref ar ei ben/phen ei hun, neu ar feic ☐

Cerdded adref gydag oedolyn cyfrifol ☐

Cludiant tacsi ☐

Mynd adref mewn car ☐

Bydd angen i oedolion sy'n nôl eu plant mewn ceir, ddod ar yr iard i nôl eu plant. **Ni chaniateir i unrhyw blentyn fynd oddi ar iard yr ysgol heb oruchwyliaeth rhiant/gwarchodwr.**

**Enw plentyn ________________ Rhiant/Gwarchodwr:____________________**

Gofynnwn hefyd am eich cydweithrediad wrth ddod i mewn i'r man parcio ar gyfer rhieni ac ymwelwyr, gan sicrhau eich bod yn parcio yn y mannau penodol, gan adael digon o le i geir eraill barcio o'ch blaen neu y tu ôl i ch. Gofynnwn i chwi fod yn wyliadwrus a gofalus gan fod rhai plant yn rhedeg o amgylch ceir. Mae gwir bryder gennym fod plentyn am gael ei daro gan gar. Mae Mr Alvin Hughes yn gweithio ar ran yr ysgol er mwyn ceisio sicrhau diogelwch pawb sy'n gwneud defnydd o'r maes parcio cyhoeddus. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith pwysig y mae'n ei wneud ac yn disgwyl ei fod bob amser yn cael ei drin gyda pharch.

Yn gywir

Meinir Roberts
Pennaeth